CAMAC HARPS
TELYNAU VINING WALES•CYMRU

# Cardiff Camac Harp Weekend

## Penwythnos Telynau Camac Caerdydd



Catrin **Finch**

Corrina **Hewat**

Gwenllian **Llŷr**

Tara **Minton**

Tsvetelina **Likova**

Veronika **Lemishenko**

**Harp exhibition**
Arddangosfa telynau

**Concerts**
Cyngherddau

**Workshops**
Gweithdai

**Masterclass**
Dosbarth Meistr

**Hands-on-harp**
Dwylo ar y delyn

## 7-8 February/Chwefror 2026

Howell's School
Cardiff Road, Llandaff
Cardiff CF5 2YD

wales.camac-harps.com

Luthiers et Facteurs de France
CSFI

# Welcome!

Time flies by so quickly it's almost unimaginable that I'm here writing the welcome page to our fifth Cardiff Camac Harp Weekend brochure. Our 25th anniversary celebration in 2024 was such a special event that I vowed to never do it again! We had the most perfect weekend of harping and friendship that still makes me smile whenever someone mentions it or a photo pops up as a reminder. But encouraged by those around me and the enjoyment of running these events we're ready to go again…



For this year's event we are proud to be joined by stars of the harp world from the UK and overseas. We're delighted that although a number have been our friends for many years, they are making their first appearances at our Cardiff events. After the success of our last event we've decided to run with the same format, which includes concerts throughout the day. So, if you're a harpist there are plenty of breaks from playing and if you're a harp carrier or purely interested in harp music there are concert-only ticket options available.

Our lineup this year is detailed in the pages that follow. Our fantastic artists this year are Catrin Finch, Corrina Hewat, Gwenllian Llŷr, Tara Minton, Tsvetelina Likova and Veronika Lemishenko. There is something to suit all ages – children and adults; all grades – from complete starters to professional harpists; and all styles – from classical to jazz and traditional music.

As ever, we are indebted to our friends from Camac Harps for their unstinting support. We extend a warm welcome to Jakez Francois, President of Camac Harps, and Alexander Rider, Camac's Artist Relations Manager, and, once again this year, we are able to offer owners of Camac harps free harp regulations by Camac's own expert technicians – Guillaume Tijou and Thomas Duchesne. Regulation places are limited, so please book early.

All the details are in the following pages. Please book by email/post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk

We hope you enjoy the weekend and look forward to welcoming you in person.

Best wishes

**Elen Vining**
Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru
116B Pantbach Road, Birchgrove, Cardiff CF14 1UE
Telephone: 029 2062 0900
E-mail: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk

# Croeso!

Mae'r amser yn hedfan a braidd y gallaf ddychmygu fy mod yma yn ysgrifennu'r dudalen groeso i'ch croesawu i bumed llyfryn Penwythnos Telynau Camac Caerdydd. Roedd ein dathliad o bum mlynedd ar hugain yn 2024 yn ddigwyddiad mor arbennig fel yr addewais i mi fy hun na fyddwn i byth yn ei wneud eto! Cawsom benwythnos perffaith o ganu telynau ac o weld ffrindiau ac mae'n dal i wneud i mi wenu os bydd unrhyw un yn sôn amdano neu fod llun yn dod i'm hatgoffa. Ond yn dilyn anogaeth y bobl o'm hamgylch a'r mwynhad o redeg y digwyddiadau hyn rydym yn barod i fynd amdani unwaith eto…

Eleni rydym yn falch fod sêr byd y delyn yn ymuno â ni o'r DU a thramor. Rydym wrth ein bodd, er bod llawer ohonynt wedi bod yn ffrindiau i ni ers sawl blwyddyn, eu bod yn dod i ddigwyddiadau Caerdydd am y tro cyntaf. Yn dilyn llwyddiant ein digwyddiad olaf rydym wedi penderfynu rhedeg yr un fformat, sy'n cynnwys cyngherddau trwy gydol y dydd. Felly, os ydych chi'n delynor/es bydd digon o seibiannau o ganu'r delyn ac os ydych yn cario telynau neu â diddordeb mewn cerddoriaeth y delyn gallwch ddewis tocynnau i'r cyngherddau'n unig.

Gallwch weld manylion pwy fydd yn perfformio yn y tudalennau sy'n dilyn. Ein hartistiaid gwych eleni yw Catrin Finch, Corrina Hewat, Gwenllian Llŷr, Tara Minton, Tsvetelina Likova a Veronika Lemishenko. Mae rhywbeth i blesio pob oedran - plant ac oedolion; pob gradd - o'r rhai sydd megis cychwyn i delynorion proffesiynol; a phob arddull - o'r clasurol i jazz a cherddoriaeth draddodiadol.

Wrth gwrs, rydym yn ddyledus i'n cyfeillion yn Camac Harps am eu cefnogaeth ddiflino. Estynnwn groeso cynnes i Jakez Francois, Llywydd Camac Harps, ac Alexander Rider, Rheolwr Cysylltiadau Artistiaid Camac, ac, unwaith eto eleni, gallwn gynnig, i berchnogion telynau Camac, gymwysiadau am ddim i'w telynau gan dechnegwyr arbenigol Camac- Guillaume Tijou a Thomas Duchesne. Mae lleoedd i dderbyn y cymwysiadau'n gyfyngedig felly cofiwch archebu'n gynnar.

Ceir yr holl fanylion ar y tudalennau sy'n dilyn. Byddwch cystal ag archebu trwy e-bost / post yn defnyddio'r ffurflen atodol neu ewch ar-lein i www.camacharps.co.uk

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r penwythnos ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi wyneb yn wyneb.

Dymuniadau gorau

**Elen Vining**
Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru
116B Heol Pantbach, Llwynbedw, Caerdydd CF14 1UE
Ffôn: 029 2062 0900
E-bost: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk



# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

## Veronika Lemishenko

Saturday 7 February / Dydd Sadwrn 7 Chwefror

11.00-11.45

Veronika's programme will feature a selection of contemporary music for the harp, including works by Welsh and Ukrainian composers (Catrin Finch, Gennadiy Lyashenko, Valeriy Antonyuk, Laura Hynninen, Şirin Pancaroğlu, Lise Vandersmissen, Philip Glass).

Bydd rhaglen Veronika'n nodweddu detholiad o gerddoriaeth gyfoes i'r delyn, yn cynnwys gweithiau gan gyfansoddwyr Cymreig ac Wcranaidd (Catrin Finch, Gennadiy Lyashenko, Valeriy Antonyuk, Laura Hynninen, Şirin Pancaroğlu, Lise Vandersmissen, Philip Glass).

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:



## Corrina Hewat

Saturday 7 February / Dydd Sadwrn 7 Chwefror

12.15-13.00

Corrina Hewat is one of Scotland's most distinctive harp players and singers. From the Highlands, with over 30 years as a composer and performer, she blends her own compositions with traditional Scottish songs and contemporary works to create soundscapes that shift between haunting and hopeful. Her music is dark, beautiful, infused with warmth and humour. Expect rich, resonant harp textures, songs and stories from a performer who deeply connects with her audience and the world around her.

Mae Corrina Hewat yn un o delynorion a chantorion mwyaf nodedig Yr Alban. Daw o Ucheldiroedd Yr Alban, a chyda dros 30 blynedd fel cyfansoddwr a pherfformiwr, mae hi'n plethu ei chyfansoddiadau ei hun gyda chaneuon traddodiadol Yr Alban, ynghyd â gweithiau cyfoes i greu tirluniau o sain sy'n newid rhwng yr hiraethus a'r gobeithiol. Mae ei cherddoriaeth yn dywyll, hardd, wedi ei drwytho â chynhesrwydd a hiwmor. Dylech ddisgwyl gweadau cyfoethog, soniarus ar y delyn a chaneuon a storïau gan berfformiwr sy'n cysylltu'n ddwfn â'i chynulleidfa a'r byd o'i hamgylch.



# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

**Tsvetelina Likova**

Saturday 7 February / Dydd Sadwrn 7 Chwefror

16.30-17.15

This afternoon's concert will include Tsvetelina's own compositions and arrangements of traditional Bulgarian music as well as pieces by Debussy and Ludovico Einaudi.

Bydd cyngerdd y prynhawn yma'n cynnwys cyfansoddiadau Tsvetelina ei hun a threfniannau o gerddoriaeth Bwlgaraidd traddodiadol yn ogystal â darnau gan Debussy a Ludovico Einaudi.

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:



**Catrin Finch**

Saturday 7 February / Dydd Sadwrn 7 Chwefror

19.00-20.00

**Around the World in 60 minutes**

The virtuosic Catrin Finch crosses ages, genres, and continents for this thrilling solo performance.

**O Amgylch y Byd mewn 60 munud**

Mae'r feistrolgar Catrin Finch yn croesi oeoedd, genres a chyfandiroedd yn y perfformiad unigol, cyffrous hwn.



# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:

## Aliara Duo: Gwenllian Llŷr & Sirius Chau (flute/ffliwt)

Sunday 8 February / Dydd Sul 8 Chwefror
11.45-12.30

**The Peace of Wild Things**

Inspired by the poem of the same name, The Peace of Wild Things pairs poetry with an evocative collection of music for flute and harp.

**The Peace of Wild Things**

Wedi ei ysbrydoli gan y gerdd o'r un enw mae The Peace of Wild Things yn paru barddoniaeth gyda chasgliad atgofus o gerddoriaeth i'r ffliwt a'r delyn.

# Concerts

Telynau Vining Harps are proud to present:

# Cyngherddau

Mae Telynau Vining Harps yn falch i gyflwyno:



**Tara Minton & John Williamson (bass/bâs dwbl)**

Sunday 8 February / Dydd Sul 8 Chwefror

16.00-17.00

Tara Minton and John Williamson present an intimate concert of songs and stories. Strings and vocals weaving their way through the valleys of Mexico to the British Isles and across the oceans to Australia…this promises to be a magical and moving performance.

Bydd Tara Minton a John Williamson yn cyflwyno cyngerdd diddos o ganeuon a storïau. Y tannau a'r lleisiau'n plethu trwy gymoedd Mecsico i Ynysoedd Prydain ac ar draws y cefnforoedd i Awstralia …mae'n addo bod yn berfformiad hudolus a theimladwy.

# The artists | Yr artistiaid

## Catrin Finch



Catrin Finch, from Llanon on the west coast of Wales, is the most gifted classical harp virtuoso of her generation, grounded in prodigious early achievements and intense classical training, and serving as Royal Harpist to HRH The Prince of Wales in her early twenties. Catrin has performed with many of the world's leading orchestras; she has also achieved chart success with her number 1 rendition of Bach's Goldberg Variations, and has recorded for the world's leading classical labels. Catrin's boundless curiosity and adventurous spirit has led her into a parallel universe of musical success, most notably through her collaboration with kora virtuoso Seckou Keita with whom she won Best Group at the BBC Radio 2 Folk Awards 2019. In her classical career, Catrin Finch has performed with many of the world's leading orchestras, including the New York Philharmonic, the Royal Philharmonic, the Boston Pops, the Academy of St Martin in the Fields and the English Chamber Orchestra. She has graced the stages of A-list classical music festivals, including Salzburg, Edinburgh, Spoleto and MDR Musiksommer in Leipzig and toured throughout Europe, north and south America and the Middle East. Catrin has performed extensively throughout the USA, South America, the Middle East, Asia, Australia and Europe, both as a soloist, and appearing with many of the world's top orchestras, and has recorded for many of the major international recording companies, including Universal Records, Deutsche Grammophon, EMI and Sony Classical, both solo and with notable artists such as Bryn Terfel, Sir James Galway and Julian Lloyd-Webber. A versatile, fearless and ground-breaking artist, Catrin continues to explore and push the boundaries of her art with award-winning international collaborations with artists such as kora maestros Seckou Keita (Senegal) and Toumani Diabaté (Mali), Colombian joropo cowboy virtuosos Cimarron, and most recently Ireland's renowned classical violinist Aoife Ní Bhriain. Catrin is currently Head of Harp at The Royal Academy of Music, London.

Catrin Finch, sy'n hanu o Lanon ar arfordir gorllewinol Cymru yw'r delynores glasurol fwyaf hyfedr a dawnus ei chenhedlaeth. Gyda gorchestion cynnar aruthrol a hyfforddiant clasurol dwys yn sail iddi, bu'n gwasanaethu fel Telynores Frenhinol Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn ei hugeiniau cynnar. Mae Catrin wedi perfformio gyda llawer o brif gerddorfeydd y byd; mae hi hefyd wedi cael llwyddiant yn y siartiau gyda'i pherfformiad rhif 1 o Amrywiadau Goldberg Bach, ac wedi recordio ar gyfer labeli clasurol mwyaf blaenllaw'r byd. Mae chwilfrydedd di-ben-draw ac ysbryd anturus Catrin wedi ei harwain i fydysawd cyfochrog o lwyddiant cerddorol, yn fwyaf nodedig trwy ei chydweithrediad â'r pencampwr ar y kora Seckou Keita. Enillodd y ddau y wobr am y Grŵp Gorau yng Ngwobrau Gwerin BBC Radio 2 yn 2019. Yn ei gyrfa glasurol, mae Catrin Finch wedi perfformio gyda llawer o gerddorfeydd mwyaf blaenllaw'r byd, gan gynnwys Ffilharmonig Efrog Newydd, y Ffilharmonig Frenhinol, y Boston Pops, Academi St Martin in the Fields a Cherddorfa Siambr Lloegr. Mae hi wedi ymddangos ar lwyfannau brif wyliau cerddoriaeth glasurol y byd, gan gynnwys Salzburg, Caeredin, Spoleto a MDR Musiksommer yn Leipzig ac wedi teithio ledled Ewrop, gogledd a de America a'r Dwyrain Canol. Mae Catrin wedi perfformio'n helaeth ledled yr Unol Daleithiau, De America, y Dwyrain Canol, Asia, Awstralia ac Ewrop, fel unawdydd, a hefyd yn ymddangos gyda llawer o gerddorfeydd gorau'r byd, ac mae wedi recordio i lawer o brif gwmnïau recordio rhyngwladol, gan gynnwys Universal Records, Deutsche Grammophon, EMI a Sony Classical, yn unigol a gydag artistiaid nodedig fel Syr Bryn Terfel, Syr James Galway a Julian Lloyd-Webber. Mae Catrin, sy'n artist amryddawn, di-ofn ac arloesol, yn parhau i archwilio a gwthio ffiniau ei chelf gyda chydweithrediadau rhyngwladol gwobrwyedig gydag artistiaid fel y meistri kora, Seckou Keita (Senegal) a Toumani Diabaté (Mali), a'r pencampwyr joropo cowboi o Golombia, Cimarron, ac yn fwyaf diweddar, y feiolinydd clasurol enwog o Iwerddon, Aoife Ní Bhriain. Ar hyn o bryd, Catrin yw Pennaeth y Delyn yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain.

## Corrina Hewat



Corrina Hewat is a renowned Scottish harper, singer and composer whose work bridges tradition and innovation. Rooted in the rich musical heritage of the Scottish Highlands, she spent her childhood on the Black Isle surrounded by music, art and storytelling—influences that continue to shape her introspective and expressive sound. Over a 30-year professional career, Corrina has become a leading figure in Scottish folk music. She directs the Scots folk choir Sangstream, co-founded DragonSong Productions, and contributed to Faber Music's Folk Tunes from the Women. A co-founder of The Unusual Suspects Big Band and Bachue (with David Milligan) and acclaimed vocal trios Shine, Grace, Hewat, Polwart, and Chantan, she continues to perform with Karine Polwart in Sing to the Dark. Corrina's music is known for its depth, warmth, and emotional honesty, and she is celebrated for her rare ability to bring out the best in others. Her most recent CD release is Song of Oak and Ivy. For more information, visit www.harpinscotland.com

Mae Corrina Hewat yn delynores, cantores a chyfansoddwraig nodedig o'r Alban ac mae ei darnau'n Pontio traddodiad a menter. Wedi ei gwreiddio yn nhreftadaeth gerddorol Ucheldiroedd Yr Alban, treuliodd ei phlentyndod ar y Black Isle wedi ei hamgylchynu gan gerddoriaeth, celf a dweud storïau - dylanwadau sy'n parhau i lunio ei sain fynegiannol a mewnblyg. Dros yrfa broffesiynol o 30 blynedd mae Corinna bellach yn ffigwr blaenllaw ym myd cerddoriaeth gwerin Albanaidd. Mae'n cyfarwyddo'r côr gwerin Albanaidd Sangstream, hi oedd cyd-sylfaenydd DragonSong Productions, a chyfrannodd at Folk Tunes from the Women gan Faber Music. Yn gyd-sylfaenydd The Unusual Suspects Big Band a Bachue (gyda David Milligan) a'r triawdau lleisiol nodedig Shine, Grace, Hewat, Polwart, a Chantan, mae'n parhau i berfformio gyda Karine Polwart yn Sing to the Dark. Mae cerddoriaeth Corrina'n adnabyddus am ei ansawdd dwfn, cynnes a'i onestrwydd emosiynol, ac mae'n cael ei dathlu am ei gallu prin i ddod â'r gorau allan yn eraill. Ei CD mwyaf diweddar yw Song of Oak and Ivy. Am fwy o wybodaeth ewch i www.harpinscotland.com

# The artists | Yr artistiaid

## Gwenllian Llŷr



Welsh harpist Gwenllian Llŷr is known for her charismatic and engaging performances. With prizes too numerous to list, including from the USA International Harp Competition and the Royal Over-Seas League Annual Music Competition, Gwenllian is becoming increasingly in demand as a solo performer. Following the successful release of her debut solo album, Dusk to Dawn, for which her playing was hailed as 'magnificent' and 'powerful', Gwenllian toured the UK both in concert venues and in the community as part of her work for the charity Live Music Now. She subsequently released a CD of Welsh music with Ty Cerdd, Soliloquies for Harp, including her own take on the quintessential Welsh hymn, Calon Lan. Both of Gwenllian's CDs are frequently featured on BBC Radio Cymru and BBC Radio 3, and her compositions have also been chosen for the ABRSM and Trinity examination lists. Gwenllian's passion for the harp knows no bounds: from her dedication to her students to the numerous harp pieces she has published, Gwenllian firmly believes in the power of music to bring people together. For more information, visit www.GwenllianLlyr.co.uk

Mae'r delynores o Gymraes, Gwenllian Llŷr, yn adnabyddus am ei pherfformiadau carismataidd a deniadol. Gyda gwobrwyon yn rhy niferus i'w rhestru, yn cynnwys Cystadleuaeth Ryngwladol y Delyn yn UDA a Chystadleuaeth Gerddoriaeth Flynyddol y Royal Over-Seas League, mae galw mawr am Gwenllian fel unawdydd. Yn dilyn llwyddiant ei halbwm unigol gyntaf, Dusk to Dawn, pan ddywedwyd 'rhagorol' a 'grymus' amdano, bu Gwenllian yn teithio yn y DU mewn neuaddau cyngerdd ac yn y gymuned fel rhan o'i gwaith ar gyfer yr elusen Live Music Now. Wedyn fe ryddhaodd CD o gerddoriaeth Gymreig gyda Tŷ Cerdd, Soliloquies for Harp, yn cynnwys ei fersiwn hi o'r emyn Cymraeg nodedig. Calon Lan. Clywir y ddwy CD gan Gwenllian ar BBC Radio Cymru a BBC Radio 3, a dewiswyd ei chyfansoddiadau ar gyfer rhestrau arholiad yr ABRSM a Trinity. Does dim terfyn ar angerdd Gwenllian o ran y delyn: o'i hymroddiad i'w myfyrwyr, i'r darnau niferus i'r delyn mae hi wedi eu cyhoeddi, mae Gwenllian yn credu'n gryf yng ngrym cerddoriaeth i ddod â phobl at ei gilydd. I gael mwy o wybodaeth ewch i, visit www.gwenllianllyr.co.uk

## Tara Minton



Tara Minton is an Australian harpist, vocalist and composer. She is proudly endorsed by Les Harpes Camac and holds a master's degree in jazz performance from The Guildhall School of Music and Drama. Sought after as both a harpist and vocalist, Tara has worked with Björk, Stan Sulzmann, Geoff Gascoyne, Emma Rawicz, Alice Zawadski, Trish Clowes, Faris Ishaq, Ester Wiesnerova, The Ronnie Scott's All Stars, Opera North, The Royal Ballet and The Australian World Orchestra. Tara has released three records in the UK to great success: The Tides of Love (2016),'Please Do Not Ignore the Mermaid (2020) and Two for the Road (2022). Tara's new record, The Devil Invites You to Dance is due for release on 13 February, 2026. Tara is joined by double bassist John Williamson for her concert.

'Otherworldly' - The Sunday Times
'Bewitching' - Jazzwise
'Ethereal and free-spirited' - Mojo

Mae Tara Minton yn delynores, lleisydd a chyfansoddwr o Awstralia. Fe'i cydnabyddir gan Les Harpes Camac a chanddi radd meistr mewn perfformio jazz o'r Guildhall School of Music and Drama. Mae gofyn mawr amdani fel telynores a lleisydd, ac mae hi wedi gweithio gyda Björk, Stan Sulzmann, Geoff Gascoyne, Emma Rawicz, Alice Zawadski, Trish Clowes, Faris Ishaq, Ester Wiesnerova, The Ronnie Scott's All Stars, Opera North, The Royal Ballet a'r Australian World Orchestra. Mae'r tair record mae Tara wedi eu rhyddhau wedi bod yn llwyddiannus iawn: The Tides of Love (2016), Please Do Not Ignore the Mermaid (2020) a Two for the Road (2022). Disgwylir rhyddhau record newydd Tara, The Devil Invites You to Dance ar 13 Chwefror, 2026. Yn y cyngerdd bydd y chwaraewr Bâs Dwbl, John Williamson yn ymuno â Tara.

'Otherworldly' - The Sunday Times
'Bewitching' - Jazzwise
'Ethereal and free-spirited' - Mojo

## Tsvetelina Likova



Born in Bulgaria, Tsvetelina proudly carries her identity and is passionate to share the beauty of the Bulgarian culture with the world through her music. Her international musical appearance began at a very young age. Now she enjoys a diverse career as a harpist and teacher based in the UK. Tsvetelina has performed internationally: from the United Arab Emirates, through Europe to the UK, at major venues such as The Royal Albert Hall, Usher Hall, Symphony Hall and Town Hall in Birmingham, and many more. Tsvetelina has specialised in the performing arts and

Ganed Tsvetelina ym Mwlgaria ac mae hi'n falch iawn o'i hunaniaeth ac yn angerddol dros rannu harddwch diwylliant Bwlgaria gyda'r byd trwy ei cherddoriaeth. Dechreuodd ei gyrfa gerddorol ryngwladol yn ifanc iawn. Nawr mae'n mwynhau gyrfa amrywiol fel telynores ac athrawes wedi ei lleoli yn y DU. Mae Tsvetelina wedi perfformio'n rhyngwladol: o'r United Arab Emirates, trwy Ewrop i'r DU mewn lleoliadau pwysig fel y Royal Albert Hall, Usher Hall, Symphony Hall a Neuadd y Dref, Birmingham, a llawer mwy. Mae Tsvetelina wedi arbenigo yn y celfyddydau perfformio a chafodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf o'r Royal Birmingham Conservatoire mawreddog

was awarded a first-class honours degree in performance from the prestigious Royal Birmingham Conservatoire and received a master's degree in transformative learning and teaching from the University of Edinburgh.

Tsvetelina has performed with orchestras in Bulgaria, Cyprus, Greece, Dubai and the UK. She is currently working on the debut album of her band, Samodiva Nestya, and taking part in various concerts, projects, festivals and events in the UK. She has won numerous awards, which include Best Ceremony Entertainer at Confetti Awards 2025, winner of 2nd place of pFITE24 Environmental composition by Home Stage and 1st place at composition competition for new commissioned piece for lever harp inspired by Bulgarian traditional music in 2021 with her piece The Golden Bird.

a gradd meistr mewn dysgu ac addysgu trawsnewidiol o Brifysgol Caeredin.

Mae Tsvetelina wedi perfformio gyda cherddorfeydd ym Mwlgaria, Cyprus, Gwlad Groeg, Dubai a'r DU. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar albwm cyntaf ei band, Samodiva Nestya, ac yn cymryd rhan mewn nifer o gyngherddau, prosiectau, gwyliau a digwyddiadau yn y DU. Mae hi wedi ennill sawl gwobr, sy'n cynnwys Best Ceremony Entertainer yn y Confetti Awards 2025, enillydd yr ail safle yn pFITE24 cyfansoddiad amgylcheddol gan Home Stage a'r safle cyntaf mewn cystadleuaeth gyfansoddi ar gyfer darn comisiwn newydd i'r delyn lifer wedi ei ysbrydoli gan gerddoriaeth draddodiadol Bwlgaria yn 2021 gyda'i darn The Golden Bird.

## Veronika Lemishenko



Veronika Lemishenko is an international harpist from Ukraine, a member of the board of directors of the World Harp Congress, art-director of the 'Glowing Harp' competition and festival, and a member of the board of the European Union of Musical Competitions for Youth (EMCY). She is a principal harpist of the Croatian National Theatre in Osijek (Croatia) and a visiting tutor of the harp department at the Royal Birmingham Conservatoire. Born in Kharkiv, Ukraine, Veronika graduated from Kharkiv State Musical Lyceum with Professor Larysa Klievtsova; Gnesin Academy of Music (Russia) with Professor Milda Agazarian; Instituto di Musica Antica (Italy) with Professor Mara Galassi; and National University of the Arts (Argentina) with Professors Oscar Rodriguez do Campo and Mara Diniello. Veronika was a prizewinner at international harp competitions in Wales, France, Spain, Ukraine, Czech Republic, Bulgaria, Russia, Greece and Singapore. Veronika was guest artist of the international musical festivals 'La Folle Journee' and Camac Festival in France, 'HarpMasters Festspiele' in Switzerland, 'Vienna Harp Days' and 'Arpa GRAZiosa' in Austria, 'Lisboa Harp Seminar' in Portugal, 'Arpa Viggianes' in Italy and 'Midwest TN Harpfest' in the USA. Together with internationally-renowned German harpist, Florence Sitruk, Veronika is running 'Ukrainian Harp Festival - In Exile' and is co-founder of the 'Veronika Lemishenko Charity Foundation': since February 2022 all funds go to support Ukraine. As a soloist and orchestra player, Veronika has performed at Royal Academy of Music (England), Berliner Philharmonic (Germany), Vienna Konzerthaus (Austria), Paris Philharmonic (France), Teatro La Fenice (Italy), Rudolfinum (Czech Republic), Esplanade (Singapore) and many others. Veronika gives masterclases and workshops worldwide: United Kingdom, Europe, Asia, USA. She has released two CDs and taken part in various recordings, as well as being a solo, chamber and orchestra musician. She has worked with STRO.MY ensemble, National Symphony Orchestra of Ukraine, Istanbul State Symphony Orchestra, Slovak Radio Orchestra, Gothic Opera, Vratsa Symphony Orchestra, Cyprus Symphony Orchestra, Zagreb Opera, Ukrainian-Czech Sinfonietta, Ural Philharmonic, Ural Opera, Zaporizhya Symphony as well as various youth orchestras.

Mae Veronika Lemishenko yn delynores ryngwladol o Wcráin, yn aelod o fwrdd cyfarwyddwyr Cyngres Telyn y Byd, cyfarwyddwr celf y gystadleuaeth a gŵyl 'Glowing Harp', ac yn aelod o fwrdd Undeb Ewrop o Gystadlaethau Cerddorol i Ieuenctid (European Union of Musical Competitions for Youth (EMCY)). Hi yw prif delynores Theatr Genedlaethol Croatia yn Osijek (Croatia) ac yn diwtor ymweld yn adran y delyn yn y Royal Birmingham Conservatory. Ganed hi yn Kharkiv, Wcráin, a graddiodd o Kharkiv State Musical Lyceum gyda'r Athro Larysa Klievtsova; o'r Gnesin Academy of Music (Rwsia) gyda'r Athro Milda Agazarian; o'r Instituto di Musica Antica (Yr Eidal) gyda'r Athro Mara Galassi; a'r National University of the Arts (Yr Ariannin) gyda'r Athro Oscar Rodriguez do Campo a'r Athro Mara Diniello. Enillodd Veronika wobr yn y cystadlaethau telyn rhyngwladol yng Nghymru, Ffrainc, Sbaen, Wcráin, Gweriniaeth Tsiec, Bwlgaria, Rwsia, Gwlad Groeg a Singapore. Roedd Veronika yn artist gwadd y gwyliau cerddorol rhyngwladol 'La Folle Journee' a Gŵyl Camac yn Ffrainc, 'HarpMasters Festspiele' yn Y Swisdir, 'Vienna Harp Days' ac 'Arpa GRAZiosa' yn Awstria, 'Lisboa Harp Seminar' ym Mhortiwgal, 'Arpa Viggianes' yn Yr Eidal a 'Midwest TN Harpfest' yn UDA. Ynghyd â'r delynores ryngwladol Almaeneg, Florence Sitruk, mae Veronika'n rhedeg Gŵyl Telyn Wcráin -Yn Alltud' ac yn gyd-sylfaenydd y 'Veronika Lemishenko Charity Foundation': ers Chwefror 2022 mae'r holl arian yn mynd i gefnogi'r Wcráin. Fel unawdydd a chwaraewr cerddorfaol mae Veronika wedi perfformio yn y Royal Academy of Music (Lloegr), Berliner Philharmonic (Yr Almaen), Vienna Konzerthaus (Awstria), Paris Philharmonic (Ffrainc), Teatro La Fenice (Yr Eidal), Rudolfinum (Gweriniaeth Tsiec), Esplanade (Singapore) a llawer i fan arall. Mae Veronika yn rhoi dosbarthiadau meistr a gweithdai'n fyd-eang: Y Deyrnas Unedig, Ewrop, Asia, UDA. Mae wedi rhyddhau dau CD ac wedi cymryd rhan mewn amryw recordiad, yn ogystal â bod yn unawdydd, a cherddor siambr a cherddorfaol. Mae hi wedi gweithio gydag ensemble STRO.MY, Cerddorfa Symffoni Genedlaethol Wcráin, Cerddorfa Symffoni Istanbul, Cerddorfa Radio Slovak, Gothic Opera, Cerddorfa Symffoni Vratsa, Cerddorfa Symffoni Cyprus, Zagreb Opera, Ukrainian-Czech Sinfonietta, Ural Philharmonic, Ural Opera, Zaporizhya Symphony yn ogystal ag amryw gerddorfa ieuenctid.

# The worshops: What's on offer?

# Y gweithdai: Beth sydd ar gynnig?

## Saturday 7 February 2026 / Sadwrn, 7 Chwefror 2026

Time/Amser

**Gwenllian Llŷr - Harp laboratory (mixed ability)** — **09.00 - 10.30**

Get your creative juices flowing! Learn about a range of harp techniques and textures and how you can use them to create your own music and graphic scores. Together we'll use prompts and stories to create something brand new! Open to all.

**Labordy'r Delyn (gallu cymysg)**

Dewch i greu! Dysgwch am ystod o dechnegau a gweadau'r delyn a sut y gallwch eu defnyddio i greu eich sgôr cerddoriaeth a graffeg eich hun. Gyda'n gilydd byddwn yn defnyddio prociau a storïau i greu rhywbeth hollol newydd! Agored i bawb.

**Tara Minton - In a modal mood: improvising with modes (beginners to intermediate)** — **09.00 - 10.30**

The major modal system is a spectrum of sonic colour from very bright (Lydian) to very dark (Locrian). In this workshop participants will learn about the major modes and their different emotional qualities, how to recognise them by ear and how they can be used to great effect in an improvisation to alter the mood of a solo.

**Mewn naws moddol: creu'n fyrfyfyr gyda moddau (dechreuwyr i ganolradd)**

Mae'r brif system foddol yn sbectrwm o liw sonig o lachar iawn (Lydiaidd) i dywyll iawn (Locriaidd). Yn y gweithdy hwn bydd y cyfranogwyr yn dysgu am y prif foddau a'u hansoddau emosiynol gwahanol, sut i'w hadnabod â'r glust a sut y gellir eu defnyddio'n effeithiol iawn yn fyrfyfyr i newid naws darn unigol.

**Tsvetelina Likova - Bulgarian music on the harp (intermediate to advanced)** — **09.00 - 10.30**

Have you ever tried the irregular rhythms of Bulgaria on the harp? You can explore a whole new world of traditional Bulgarian melodies and rhythms at Tsvetelina's workshops for beginners (tomorrow) and intermediate/advanced (today) players for all types of harp.

**Cerddoriaeth Fwlgaraidd ar y delyn (canolradd i uwch)**

Ydych chi erioed wedi trio rhythmau afreolaidd Bwlgaria ar y delyn? Gallwch archwilio byd hollol newydd o felodïau a rhythmau Bwlgaria yng ngweithdai Tsvetelina ar gyfer dechreuwyr (fory) a chwaraewyr canolradd / uwch (heddiw) ar bob math o delyn.

**Catrin Finch - Catrin Finch Academy** — **14.30 - 16.00**

A fun session on technique, sound and improvisation. No music needed. The workshop is open to beginners or more advanced harpists. Pedal or lever harps.

**Academi Catrin Finch**

Sesiwn llawn hwyl ar dechneg, sain a chwarae'n fyrfyfyr. Dim angen cerddoriaeth. Mae'r gweithdy'n agored i ddechreuwyr neu delynorion mwy profiadol. Telynau pedal neu lifer.

**Tara Minton - Transcribe with Tara: jazz language in practice (intermediate to advanced)** — **14.30 - 16.00**

All jazz musicians, whether pianists, saxophonists or harpists, learn through a process called transcribing - listening, imitating and assimilating 'language'. In this workshop participants will explore a famous jazz solo transcription, playing along to the original recording and identifying useful licks and phrases to use in their own improvised solos. Basics of the major and minor II-V-I cadence will be covered as well as approaches for building a solo.

**Trawsgrifio gyda Tara: iaith jazz mewn ymarfer (canolradd i uwch)**

Mae holl gerddorion jazz, p'un ai'n bianyddion, sacsoffonwyr neu delynorion yn dysgu trwy broses o'r enw trawsgrifio - gwrando, dynwared a chymhathu 'iaith'. Yn y gweithdy hwn bydd y cyfranogwyr yn archwilio trawsgrifiad unigol jazz, yn cyd-chwarae â'r recordiad gwreiddiol ac adnabod 'liciau' a chymalau defnyddiol i'w defnyddio yn eu gwaith byrfyfyr unigol eu hunain. Bydd hanfodion y diweddebau mwyaf a'r lleddf II-V-I yn cael sylw yn ogystal â dulliau i adeiladu unawd.

Time/Amser

## Corrina Hewat - Songs from Scotland (intermediate to advanced/beginners)

Harp and song – what can be done with a voice and harp? Corrina will bring a selection of songs from Scotland designed to be enjoyable for all, while introducing harmonic ideas, rhythmic patterns, and supportive harp accompaniments for you to try. Whether you're an experienced harpist or still learning, there's plenty of inspiring harp work woven through the melodies to keep you engaged. No need to be a singer — the focus is on expanding your harp skills and creativity in a welcoming, musical environment.

**09.30 - 11.00** (intermediate to advanced)

**14.00 - 15.30** (beginners)

### Caneuon o'r Alban (canolradd i uwch/dechreuwyr)

Y delyn a chân - beth ellir ei wneud gyda'r llais a'r delyn? Daw Corrina â detholiad o ganeuon o'r Alban wedi eu dylunio fel bod pawb yn eu mwynhau, tra'n cyflwyno syniadau harmonig, patrymau rhythmig, a chyfeiliant cefnogol ar y delyn i chi roi tro arnynt. P'un ai ydych chi'n delynor profiadol neu'n dal i ddysgu, mae digon o waith telyn ysbrydoledig wedi eu plethu trwy'r melodïau i gadw'ch diddordeb. Dim angen bod yn ganwr - mae'r ffocws ar ehangu'ch sgiliau a'ch creadigrwydd ar y delyn mewn amgylchedd cerddorol a chroesawgar.

## Hands-on-harp for complete beginners

**Never touched a harp?** Have you always wanted to try the harp? Then this is the class for you! Join us for a session of harping, where you'll learn about the strings, levers and hand position, as well as performing together at the end of the session. No previous experience required and we'll provide the harp, so there's no excuse not to join in the fun!

**09.30 - 11.00**

### Dwylo ar y Delyn i ddechreuwyr llwyr

**Ddim erioed wedi cyffwrdd â thelyn?** Ydych erioed wedi dymuno rhoi tro ar y delyn? Yna dyma'r dosbarth i chi! Ymunwch â ni am sesiwn ar y delyn, ble byddwch yn dysgu am y tannau, liferi a ble i roi eich dwylo, yn ogystal â pherfformio gyda'n gilydd ar ddiwedd y sesiwn. Dim angen cael profiad blaenorol a byddwn ni'n darparu telyn felly does dim esgus i chi beidio ag ymuno yn yr hwyl!

## Tsvetelina Likova - Bulgarian music on the harp (beginners)

Have you ever tried the irregular rhythms of Bulgaria on the harp? You can explore a whole new world of traditional Bulgarian melodies and rhythms at Tsvetelina's workshops for beginners (today) and intermediate/advanced (yesterday) players for all types of harp.

**09.30 - 11.00**

### Cerddoriaeth Bwlgaraidd ar y delyn (dechreuwyr)

Ydych chi erioed wedi trio rhythmau afreolaidd Bwlgaria ar y delyn? Gallwch archwilio byd hollol newydd o felodïau a rhythmau traddodiadol Bwlgaria yng ngweithdai Tsvetelina i ddechreuwyr (heddiw) a chwaraewyr canolradd / uwch (ddoe) ar bob math o delyn.

## Gwenllian Llŷr - Powerful practice (mixed ability)

Stuck on a particular passage? Returning to an old piece? Or feeling overwhelmed by starting something new? In this workshop, we'll explore how to get the most out of your practice time, learning techniques, preparing for a performance and lots more! Feel free to bring your own pieces, but we will also look at brand new pieces together and look at how to tackle them efficiently.

**14.00 - 15.30**

### Ymarfer grymus (gallu cymysg)

Yn sownd ar ddarn penodol? Yn mynd yn ôl at hen ddarn? Neu'n teimlo'n anesmwyth wrth ddechrau rhywbeth newydd? Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio sut i gael y mwyaf allan o'ch amser ymarfer, yn dysgu technegau, yn paratoi ar gyfer perfformio a llawer mwy! Croeso i chi ddod â'ch darnau eich hun ond hefyd byddwn yn edrych ar ddarnau newydd gyda'n gilydd ac edrych sut gallwn ddelio â nhw'n effeithiol.

## Veronika Lemishenko - Masterclass

Veronika Lemishenko will give a masterclass for students at all levels, but please note that pre-booking is essential. This masterclass is an opportunity for harpists of all levels to perform a piece (or part of a piece) in front of an audience and to receive constructive feedback from a world-renowned harpist.

**14.00 - 15.30**

### Dosbarth Meistr

Bydd Veronika Lemishenko yn rhoi Dosbarth Meistr i fyfyrwyr o bob lefel ond dylech nodi fod archebu o flaen llaw'n hanfodol. Mae'r dosbarth meistr hwn yn gyfle i fyfyrwyr o bob safon i berfformio darn (neu ran o ddarn) o flaen cynulleidfa ac i dderbyn adborth adeiladol oddi wrth delynor byd-enwog.

# The programme | Y rhaglen

## Saturday 7 February 2026 / Sadwrn, 7 Chwefror 2026

| | Foyer/Cyntedd | Room 1/Ystafell 1 | Room 2/Ystafell 2 | Room 3/Ystafell 3 |
|---|---|---|---|---|
| 08.00 - 09.00 | Registration/Cofrestru | | | |
| 09.00 - 10.30 | | Gwenllian Llŷr<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Harp laboratory<br>(mixed ability) | Tara Minton<br>Workshop/Gweithdŷ<br>In a modal mood<br>(beginners to inter-mediate) | Tsvetelina Likova<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Bulgarian music on the harp (intermedi-ate & advanced) |
| 10.30 - 11.00 | | Morning break 1/Egwyl bore 1 | | |
| 11.00 - 11.45 | Harp exhibition<br>• Harp sales<br>• Harp rentals<br>• Music<br>• Accessories<br>• Artists' CDs | Veronika Lemishenko<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall \| Y Neuadd Fawr | | |
| 11.45 - 12.15 | | Morning break 2/Egwyl bore 2 | | |
| 12.15 - 13.00 | | Corrina Hewat<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/Y Neuadd Fawr | | |
| 13.00 - 14.30 | | Lunch break/Amser cinio | | |
| 14.30 - 16.00 | Arddangosfa delynau<br>• Gwerthu telynau<br>• Llogi telynau<br>• Cerddoriaeth<br>• Ategolion<br>• CD's artistiaid | Catrin Finch<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Academy (open to all) | Tara Minton<br>Workshop/Gweithdŷ<br>Transcribe with Tara<br>(intermediate & advanced) | |
| 16.00 - 16.30 | | Afternoon break/Egwyl prynhawn | | |
| 16.30 - 17.15 | | Tsvetelina Likova<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/Y Neuadd Fawr | | |
| | | | | |
| 18.00 - 18.45 | | Pre-concert reception \| Derbyniad cyn y cyngerdd | | |
| 19.00 - 20.00 | | Catrin Finch<br>Concert/Cyngerdd<br>The Great Hall/Y Neuadd Fawr | | |

# The programme | Y rhaglen

## Sunday 8 February 2026 / Sul, 8 Chwefror 2026

| | Foyer/Cyntedd | Room 1/Ystafell 1 | Room 2/Ystafell 2 | Room 3/Ystafell 3 |
|---|---|---|---|---|
| 08.30 - 09.30 | Registration/Cofrestru | | | |
| 09.30 - 11.00 | Harp exhibition | Corrina Hewat Workshop/Gweithdŷ Songs from Scotland (intermediate & advanced) | Workshop/Gweithdŷ Hands-on-harps for complete beginners/ Dwylo-ar-y-delyn ar gyfer dechreuwyr pur | Tsvetelina Likova Workshop/Gweithdŷ Bulgarian music on the harp (beginners) |
| 11.00 - 11.45 | • Harp sales • Harp rentals • Music • Accessories • Artists' CDs | Morning break/Egwyl bore | | |
| 1145 - 1230 | | Aliara Duo: Gwenllian Llŷr & Sirius Chau Concert/Cyngerdd The Great Hall/Y Neuadd Fawr | | |
| 12.30 - 14.00 | | Lunch break/Amser cinio | | |
| 14.00 - 15.30 | Arddangosfa delynau | Gwenllian Llŷr Workshop/Gweithdŷ Powerful practice (mixed ability) | Corrina Hewat Workshop/Gweithdŷ Songs from Scotland (beginners) | Veronika Lemishenko Masterclass/Dosbarth Meistr |
| 15.30 - 16.00 | • Gwerthu telynau • Llogi telynau • Cerddoriaeth • Ategolion • CD's artistiaid | Afternoon break/Egwyl prynhawn | | |
| 16.00 - 17.00 | | Tara Minton & John Williamson Concert/Cyngerdd The Great Hall\Y Neuadd Fawr | | |
| 17.30 | | Festival ends/Yr wŷl yn gorffen | | |

# Tickets
## and general information

### Booking tickets
Tickets for the events and the concerts may be booked by e-mail/post using the enclosed form or look on-line at www.camacharps.co.uk (closing date 20 January 2026).

### Veronika Lemishenko's masterclass
This masterclass is an opportunity for harpists of all levels to perform a piece (or part of a piece) in front of an audience and to receive constructive feedback from a world-renowned harpist. Please note that places are strictly limited and pre-booking is therefore essential.

### Camac harp regulations
Camac harp technicians will be available on both days for regulating Camac lever and pedal harps (not other makes). For this event, this is a free service, but replacement strings and levers will be charged for. Please note that places are strictly limited and must be booked in advance. Please book early to avoid disappointment by telephoning Elen on 029 2062 0900.

### Hands-on-harp for beginners
The hands-on-harp course is designed for those who have never played a harp before and would like to try. They are suitable for children and adults of all ages. We will provide a harp for all participants on this introductory course.

### Availability of harps
Please bring your own harp, stool and stand if you are participating in a workshop (except for the hands-on-harp course where a harp will be provided). If this is not possible, please contact us in advance as we will have a small number of harps available for loan on the day.

### Information for parents/guardians
Parents/guardians of a child joining a class will be required to complete a form at registration with contact details in the event of illness, etc.

### Venue and parking
The venue is Howell's School, Cardiff Road, Llandaff, Cardiff CF5 2YD. There is easy access and you can unload your harp close to the venue. Car parking is available at the school and is free of charge.

### Lunches and refreshments
A two-course lunch will be available in the refectory for those booking a weekend or day ticket and the cost is included in the ticket price (your pre-paid voucher must be shown). Coffee and/or tea will be available throughout the day free of charge. Soft drinks and other snacks may be purchased in the refectory.

### Enquiries
All enquiries, please, to Elen Vining at Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru

Address: 116B Pantbach Road, Birchgrove, Cardiff CF14 1UE.
Telephone: 029 2062 0900
E-mail: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk

# Tocynnau
## a gwybodaeth gyffredinol

### Archebu tocynnau
Gellir archebu tocynnau ar gyfer y digwyddiadau a'r cyngherddau drwy e-bost/post gan ddefnyddio'r ffurflen atodol neu edrychwch ar-lein yn www.camacharps.co.uk (dyddiad cau yw 20 Ionawr 2026).

### Dosbarth Meistr Veronika Lemishenko
Mae'r dosbarth meistr hwn yn gyfle i fyfyrwyr o bob safon i berfformio darn (neu ran o ddarn) o flaen cynulleidfa ac i dderbyn adborth adeiladol oddi wrth delynor byd-enwog. Nodir bod nifer y lleoedd i'r rhai sy'n dymuno perfformio yn gyfyngedig

### Cymwysiadau telynau Camac
Bydd technegwyr telynau Camac ar gael ar y ddau ddiwrnod er mwyn cymhwyso telynau lifer a phedal Camac (nid telynau o wneuthuriad arall). Mae hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim ond codir tâl am dannau a liferi newydd. Dylech nodi bod nifer y lleoedd yn gyfyngedig ac mae'n rhaid archebu o flaen llaw. Os gwelwch yn dda archebwch yn gynnar i osgoi cael eich siomi drwy ffonio Elen ar 029 2062 0900.

### Cwrs dwylo-ar-y-delyn i ddechreuwyr
Mae'r cwrs dwylo-ar-y-delyn wedi ei ddylunio ar gyfer y rheiny sydd ddim erioed wedi canu telyn o'r blaen ond hoffent geisio. Mae'n briodol ar gyfer plant ac oedolion o bob oed. Byddwn yn darparu telyn ar gyfer pawb ar y cwrs rhagarweiniol hwn.

### Argaeledd telynau
Os gwelwch yn dda dewch â'ch telyn, stôl a'ch stondin gerddoriaeth eich hun os ydych yn cymryd rhan mewn gweithdy (heblaw am y cwrs dwylo-ar-y-delyn oherwydd darperir telyn). Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltwch â ni o flaen llaw oherwydd bydd gennym nifer fach o delynau ar gael i'w benthyg ar y diwrnod.

### Gwybodaeth ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid
Bydd yn ofynnol i rieni / gwarcheidwaid plentyn sy'n ymuno â dosbarth, i gwblhau ffurflen wrth gofrestru gyda manylion cyswllt rhag ofn bydd salwch ac ati.

### Lleoliad a pharcio
Y lleoliad yw Ysgol Hywel, Heol Caerdydd, Llandaf, Caerdydd CF5 2YD. Mae mynediad i'r safle yn rhwydd a gallwch ddadlwytho'ch telyn yn agos at y lleoliad. Mae maes parcio rhad ac am ddim ar gael wrth brif adeilad yr ysgol.

### Cinio a lluniaeth
Bydd cinio dau gwrs ar gael yn yr ystafell fwyta ar gyfer y rhai sy'n archebu tocyn penwythnos neu ddiwrnod ac mae'r gost yn gynwysedig ym mhris y tocyn (mae'n rhaid i chi ddangos eich taleb sy'n dangos eich bod wedi talu). Bydd coffi / te ar gael trwy gydol y diwrnod yn rhad ac am ddim. Gellir prynu byrbrydau a diodydd ysgafn yn yr ystafell fwyta.

### Ymholiadau
Dylid anfon unrhyw ymholiadau at Elen Vining yn Camac Harps | Telynau Vining Wales · Cymru

Cyfeiriad: 116B Heol Pantbach, Birchgrove, Caerdydd CF14 1UE.
Ffôn: 029 2062 0900
E-bost: info@camacharps.co.uk
www.camacharps.co.uk